

**COFNODION CYFARFOD SENEDD PRIFYSGOL CAERDYDD A GYNHALIUYD  
DDYDD MERCHER 23 MEHEFIN 2021, DRWY ZOOM  
PRESENOLDEB**

Yr Athro Colin Riordan	P	Y Dr Catherine Laing	P
Yr Athro Rudolf Allemann	P	Yr Athro Wolfgang Maier	A
Yr Athro Stuart Allen	P	Emmajane Milton	P
Yr Athro Rachel Ashworth	A	Claire Morgan	P
Yr Athro Gill Bristow	P	Yr Athro Damien Murphy	A
Yr Athro Marc Buehner	A	Yr Athro Jim Murray	P
Jane Chukwu	P	Larissa Nelson	A
Yr Athro David Clarke	P	Joanne Pagett	P
Kelsey Coward	A	Dr Jo Patterson	P
Yr Athro Trevor Dale	P	Yr Athro Tîm Phillips	P
Dr Jane Davies	P	Jude Pickett	P
Rhys Denton	P	Dr Jamie Platts	P
Hannah Doe	P	Dr Emma Richards	A
Georgina East	P	Yr Athro Steve Riley	A
Helen Evans	P	Sebastian Ripley	P
Luke Evans	P	Dr Josh Robinson	A
Tomos Evans	P	Sarah Saunders	A
Yr Athro Dylan Foster Evans	P	Dr Hannah Shaw	P
Graham Getheridge	A	Dr Andy Skyrme	P
Yr Athro Kim Graham	P	Yr Athro Peter Snowton	P
Dr John Groves	P	Dr Zbig Sobiesierski	P
Yr Athro Mark Gumbleton	P	Tracey Stanley	A
Yr Athro Ian Hall	A	Yr Athro Ceri Sullivan	P
Dr Thomas Hall	P	Yr Athro Petroc Sumner	A
Yr Athro Ken Hamilton	A	Dr Catherine Teehan	A
Dr Natasha Hammond-Browning	P	Dr Christoph Teufel	A
Yr Athro Ben Hannigan	P	Gail Thomas	P
Dr Alexander Harmer	A	Dr Onur Tosun	P
Ms Karen Harvey-Cooke	P	Dr Laurence Totelin	P
Dr Athanasios Hassoulas	P	Yr Athro Chris Tweed	A
Yr Athro James Hegarty	A	Yr Athro Damian Walford Davies	P
Yr Athro Mary Heimann	A	Matt Walsh	A
Dr Monika Hennemann	P	Yr Athro Ian Weeks	P
Dr Kersty Hobson	A	Yr Athro Keith Whitfield	A
Yr Athro Karen Holford	P	Yr Athro David Whitaker	P
Yr Athro Joanne Hunt	A	Yr Athro John Wild	P
Yr Athro Nicola Innes	P	Alexandra Williams	P
Yr Athro Dai John	P	Yr Athro Martin Willis	P
Yr Athro Urfan Khaliq	P	Dr Liz Wren-Owens	A
Yr Athro Alan Kwan	P	Yr Athro Jianzhong Wu	P

## **YN BRESENNOL**

Hannah Darnley  
Laura Davies  
Rhodri Evans  
Yr Athro Claire Gorrara  
Dr Rob Gossedge  
Dr Julie Gwilliam  
Rashi Jain  
Yr Athro Wenguo Jiang  
Vari Jenkins  
Dr Emma Kidd

Sue Midha  
Gareth Owen  
TJ Rawlinson  
Dr Andrew Roberts  
Ruth Robertson (cofnodion)  
Claire Sanders  
Yr Athro Phil Stephens  
Yr Athro Andrew Westwell  
Simon Wright (Ysgrifennydd)

### **918 CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Pennaeth Ieithoedd Modern newydd, yr Athro David Clarke. Nodwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i helpu i gynhyrchu'r rhestr bresenoldeb a'r cofnodion.

### **919 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

NODWYD Y CANLYNOL

919.1 byddai'r ymddiheuriadau a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

### **920 COFNODION**

920.1 Dywedodd y Cadeirydd fod ymholiad ynglŷn â'r cofnodion wedi dod i law. Roedd yr ymholiad yn ymwneud â nodyn ar ôl y cyfarfod a fewnosodwyd ar ôl cofnod 906.8 ynghylch Adnewyddu Academaidd. Cynigiwyd dileu'r nodyn a thrafod y mater o dan faterion sy'n codi.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

920.2 cadarnhau cofnodion cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021 (papur 20/708) fel cofnod cywir yn amodol ar ddileu'r nodyn ar ôl y cyfarfod fel y nodir uchod.

### **921 MATERION YN CODI**

Adnewyddu Academaidd (Cofnod 906.8)

NODWYD Y CANLYNOL

921.1 y diweddariadau a gafwyd gan bob Coleg ar yr ymgynghoriad ar gynigion sy'n ymwneud ag adnewyddu academaidd:

.1 rhwng mis Mawrth 2019 a mis Ionawr 2020 cynhaliodd Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol 10 cyfarfod cyhoeddus (1 ym mhob Ysgol); 10 gweithdy; 4 Gweithdai

traws-Goleg a hwyluswyd gan y Deoniaid; Diwrnod i ffwrdd i Fwrdd Gweithrediadau Bwrdd y Coleg; arolwg o bob aelod o staff gan rannu'r ymatebion a thri chyfarfod cyhoeddus yn rhoi sylw i'r rhain. Cafodd cynllun cychwynnol ei ddsbarthu ar gyfer ymgynghori arno, a rhoddwyd gwedd derfynol i gyfres o gamau gweithredu ym mis Mawrth 2020;

- .2 yn y Coleg Gwyddoniaeth Ffisegol a Pheirianeg mae prosiectau Adnewyddu Academaidd i gyd wedi cael eu cynnig gan yr Ysgolion eu hunain ac maent wedi bod yn destun trafodaeth reolaidd ym Mwrdd y Coleg a Grŵp Gweithrediadau'r Coleg;
- .3 dechreuodd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd drafodaethau ar Adnewyddu Academaidd gydag Ysgolion ym mis Tachwedd 2020, gan nodi meysydd posibl i gael eu hystyried. Cafodd y meysydd eang hyn eu mireinio gan Ysgolion a'u cyflwyno'n ôl i Fwrdd Coleg BLS ym mis Ionawr 2021, gan sicrhau bod cynlluniau cyflawni Adnewyddu Academaidd yn cael eu llywio a'u llywio gan yr Ysgolion. Ers mis Chwefror, mae'r holl newidiadau i raglenni wedi mynd drwy brosesau arferol y Brifysgol;

921.2 codwyd pwynt gan aelod o'r Senedd yn ymwneud â fersiwn derfynol y Polisi Datblygu Rhaglenni a gyhoeddwyd, a oedd yn cynnwys newidiadau nad oeddent wedi cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Senedd. Roedd y newidiadau hyn yn sylweddol ac roedd gan staff academaidd, yn ENCAP yn benodol, bryderon am amrywiaeth eang o resymau.

#### PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

921.3 byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr yn gwirio'r fersiwn o'r Polisi Datblygu Rhaglenni a gyhoeddwyd i ganfod a fu newid iddo ar ôl y Senedd;

921.4 pe na bai'r Senedd wedi cymeradwyo'r newid, byddai hyn yn cael sylw yn unol â'r llwybr llywodraethu priodol.

#### Mabwysiadu diffiniad IHRA o wrthsemitiaeth a diffiniad APPG Mwslimiaid Prydain o islamoffobia

#### NODWYD Y CANLYNOL

921.5 roedd y Cyngor wedi trafod y cynnig i fabwysiadu diffiniad IHRA o wrthsemitiaeth a diffiniad APPG Mwslimiaid Prydain o islamoffobia yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2021 a nododd:

- (cofnod 1923.1) roedd y Brifysgol wedi derbyn llythyr gan y Fforwm Myfyrwyr Hindŵaidd Cenedlaethol yn gofyn a ystyrir bod y Brifysgol yn lle diogel i Hindŵaiaid;

- (cofnod 1923.2) efallai y bydd mabwysiadu crefydd neu ddiffiniadau penodol o hil yn eithrio unrhyw grwpiau ffydd neu hil eraill nad ydynt wedi'u cynnwys ac nad oedd y Cyngor am beri ymraniadau o ganlyniad i fabwysiadu diffiniad;
- mae gan y Brifysgol bolisïau sy'n bodoli eisoes i ddiogelu grwpiau o fewn ei chymuned ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ei gwahanol gymunedau crefydd a hil.

921.6 yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r cynigion, ac wedi ystyried barn y Senedd yn ogystal ag aelodau'r Cyngor, cytunodd y Cyngor i beidio â mabwysiadu diffiniad IHRA o Wrthsemitiaeth a diffiniad APPG Mwslimiaid Prydain o ddiffiniad Islamoffobia ar hyn o bryd gan y gallai hyn beri ymrannu yng nghymuned y Brifysgol;

921.7 bydd yr Is-bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cefnogi adolygiad o bolisïau'r Brifysgol i ddiogelu grwpiau o fewn ei chymuned ac i sicrhau bod pob cymuned yn teimlo ei bod yn cael ei diogelu.

## **922 DATGAN BUDDIANT**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r gofyniad iddynt ddatgelu unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai ddylanwadu ar eu barn. Dylid datgelu buddiannau cyn i eitem gael ei drafod, a dylai'r unigolyn dan sylw naill ai gadael y cyfarfod neu beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth, fel y bo'n briodol ar gyfer y rhan honno o'r agenda.

### **NODWYD Y CANLYNOL**

922.1 ni wnaeth unrhyw aelod ddatgelu unrhyw fuddiannau.

## **923 ADRODDIAD GAN YR IS-GANGHELLOR**

Derbyniwyd papur 20/191 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Senedd'. Cyflwynwyd y papur gan yr Is-Ganghellor.

### **NODWYD Y CANLYNOL**

923.1 cynnwys adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Senedd a'r eitemau ychwanegol canlynol, a roddwyd ar lafar;

923.2 yn dilyn ymarfer recriwtio mewnol, penodwyd yr Athro Damian Walford Davies i rôl y Dirprwy Is-Ganghellor o 1 Awst 2021;

923.3 byddai'r Is-Ganghellor yn penodi i'r swydd sy'n dod yn wag o ganlyniad i hynny, sef rôl Rhag Is-Ganghellor Coleg y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, yn gyflym er mwyn sicrhau parhad busnes; yn unol ag Ordinhad 8, byddai manyleb y swydd a manyleb y person yn cael eu dosbarthu i'r Senedd ar ôl y cyfarfod. Gofynnir i aelodau'r Senedd

ddychwelyd eu sylwadau i Swyddfa'r Is-Ganghellor erbyn 1 Gorffennaf 2021;

923.4 roedd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth gan nifer o bleidiau, yn deillio o ddadl allanol ar ryddid i lefaru a chredoau rhywedd-feirniadol ac roedd y brifysgol yn ystyried yr ohebiaeth; gwahoddodd y Cadeirydd aelodau o'r Senedd i wneud sylwadau os oeddent yn dymuno gwneud hynny; ni chodwyd unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

**924 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU AC ANSAWDD ACADEMAIDD (ASQC)**

Derbyniwyd papurau 20/710 'Adroddiad gan Gadeirydd ASQC' a 20/667 'Cofnodion Cyfarfod ASQC 18 Hydref 2021'. Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y papur.

**NODWYD Y CANLYNOL**

924.1 Gofynnwyd i'r Senedd gymeradwyo'r cynigion canlynol a oedd wedi cael eu craffu gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd:

- .1 proses ail-ddilysu ar gyfer rhaglenni a addysgir, i gymryd lle adolygiad cyfnodol;
- .2 diwygiadau i'r rheoliadau derbyn myfyrwyr;
- .3 diwygiadau i'r Rheoliadau Dyfarnu, Rhaglenni, Modiwlau ac Asesu;
- .4 polisi astudio o bell wedi'i adolygu
- .5 diwygiadau i'r rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau ymchwil ôl-raddedig;
- .6 Gweithdrefn newydd ar gyfer Ailgofrestru Cyn-Fyfyrwyr Gradd Ymchwil i'w Harholi.

924.2 rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr sicrwydd i'r Senedd ei bod yn gwrando ar bryderon staff academaidd mewn perthynas â gweithredu'r polisi amgylchiadau esgusodol ac yn bwriadu adolygu'r polisi dros yr haf; roedd gwelliannau i brosesau eisoes wedi'u nodi yn seiliedig ar adborth staff; roedd cyfathrebu â myfyrwyr a'r dasg SIMS yn cael eu diweddarau; y flaenoriaeth bresennol oedd cwblhau byrddau arholi'r haf a byrddau ailsefyll yn llwyddiannus:

924.3 roedd y Brifysgol wedi ymrwmo i'r Siarter Gonestrwydd Academaidd, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, i addo gweithredu ei hegwyddorion a'i hymrwymiaadau, a oedd yn cynnwys gweithio gyda staff a myfyrwyr ac, ar y cyd ar draws y sector, i ddiogelu a hyrwyddo uniondeb academaidd, a chymryd camau yn erbyn camymddygiad academaidd.

**PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

924.3 cymeradwyo'r argymhellion ym mhapur 20/710.

**925 CYFLWYNIAD REF 2021 – ADRODDIAD DADANSODDI**

Derbyniwyd papurau 20/711HC 'Ref 2021 Cyflwyniad - Adroddiad Dadansoddi'. Y Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter a gyflwynodd y papur.

NODWYD Y CANLYNOL

925.1 [HEPGORWYD];

925.2 [HEPGORWYD];

925.3 [HEPGORWYD];

925.4 [HEPGORWYD];

925.5 [HEPGORWYD].

**926 CYNIGION AR GYFER LLYWODRAETHU ADDYSG**

Derbyniwyd papurau 20/712 'Cynigion ar gyfer Llywodraethu Addysg'. Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y papur.

NODWYD Y CANLYNOL

926.1 roedd cynigion yn cael eu cyflwyno a oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: sefydlu pwyllgorau profiad addysg a myfyrwyr newydd ar lefelau is-bwyllgorau'r Ysgol, y Coleg a'r Senedd; sefydlu pwyllgorau ymchwil ôl-raddedig mewn ysgolion a Grŵp Strategaeth PGR; a diwygio'r Rheoliadau a'r Ordinadau Academaidd yn unol â hynny;

926.2 roedd gan gyfansoddiad is-bwyllgor newydd i'r Senedd 'Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr' ddwy ran o dair yn llai o aelodau a benodwyd gan y Senedd nag ASQC a chynnig y dylid cywiro hyn i adlewyrchu cydbwysedd yr aelodaeth yn ASQC;

926.3 nid oedd Byrddau Astudiaethau wedi cael eu rhestru fel cyrff a oedd wedi bod yn rhan o'r ymarfer ymgynghori, ond byddent wedi llwyddo i ymateb i'r ymgynghoriad staff agored; mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, bydd barn Byrddau Astudiaethau yn cael ei nodi, a byddai PVC Addysg a Myfyrwyr yn bwrw ymlaen â hyn;

926.4 bydd angen i bwyllgorau sengl, mewn Ysgolion llai, ymgymryd â rolau lluosog felly bydd angen i'r broses o weithredu ar lefel Ysgol ystyried y sefyllfaoedd hyn.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 926.5 Argymell i'r Cyngor
- .1 diwygiadau i Ordinhad 10: Cyfansoddiad y Pwyllgorau (atodiad 1 o bapur 20/712) i amrywio'r aelodaeth a gwneud mân addasiadau i gylch gorchwyl ASQC;
  - .2 diwygiadau i Ordinhad 10: Cyfansoddiad y Pwyllgorau (atodiad 1 o bapur 20/712) i sefydlu Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, yn amodol ar adolygiad o'r aelodaeth arfaethedig i gynyddu nifer yr aelodau a benodir gan y Senedd.
  - .3 diwygiadau i Ordinhad 9: Cyrff Academaidd i gadarnhau na ddylid ystyried yr Academi Ddoethurol bellach yn gorff academaidd (atodiad 3 o bapur 20/712).

926.6 cymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheoliadau Academaidd ar gyfer Llywodraethu Academaidd fel y'u rhestrir yn atodiad 2 papur 20/712;

## **927 IS-STRATEGAETHAU CENHADAETH DINESIG AC YMCHWIL AC ARLOESI**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/713C, 'Is-strategaethau Cenhadaeth Ddinesig ac Ymchwil ac Arloesi'. Cyflwynwyd y papur gan yr Is-Ganghellor.

### **NODWYD Y CANLYNOL**

927.1 cadarnhaodd y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter fod yr Is-strategaeth Ymchwil ac Arloesi wedi'i datblygu trwy ymgynghoriad a'i bod yn cyd-fynd yn gryf â'r fersiwn flaenorol. Mae'r fersiwn arfaethedig yn cynnwys mwy o fanylder mewn meysydd lle mae newid;

927.2 cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod ymgynghoriad ar yr Is-Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig wedi'i gynnal yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys gydag Ysgrifennydd Addysg presennol Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Addaswyd yr Is-Strategaeth i adlewyrchu'r newidiadau sylweddol yng nghyd-destun allanol megis newid yn yr hinsawdd a chamau gweithredu'r Cenhedloedd Unedig ar ddatblygu cynaliadwy a'r adferiad a arweinir gan sgiliau o COVID-19.

### **PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

927.3 argymell yr is-strategaethau i'r Cyngor.

## **928 POLISI MOESEG PRIFYSGOL CAERDYDD AR GYFER YMCHWIL DDYNOL**

Derbyniwyd 20/657 'Polisi Moeseg ar gyfer Ymchwil Dynol'. Y Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter a gyflwynodd y papur.

### **PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

928.1 argymell y diweddariadau i'r Polisi Moeseg ar gyfer Ymchwil Dynol fel y'u nodir ym mhapur 20/657 i'r Cyngor.

**929 NEWIDIADAU I GATEGORÏAU STAFF AR Y CYNGOR**  
Derbyniwyd papurau 20/714C 'Newidiadau i Gategorïau Staff ar y Cyngor'. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Brifysgol y papur.

NODWYD Y CANLYNOL

929.1 y mecanwaith gweithredu ar gyfer y newidiadau y cytunwyd arnynt o'r blaen i gategorïau staff ar y Cyngor.

**930 UNRHYW FUSNES ARALL**

Swydd Wag ar y Senedd

NODWYD Y CANLYNOL

930.1 hysbysebwyd swydd wag arall ar y Senedd yn Blas Staff ar 16 Mehefin, gyda'r enwebiadau i fod i gael eu henwebu erbyn 16 Gorffennaf 2021. Cysylltir hefyd ag aelodau'r Senedd dros yr haf mewn perthynas ag aelod etholedig y Cyngor.

Pleidlais o ddiolch i aelodau sy'n gadael

930.2 diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny a oedd yn gadael y mae eu telerau'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd ac felly roeddent yn mynychu eu cyfarfod diwethaf:

Ms Karen Harvey-Cooke  
Dr Helen Shaw  
Kersty Hobson  
Dr Jane Davies  
Athanasios Hassoulas  
Christoph Teufel  
Alexandra Williams

930.3 Y swyddogion sabothol canlynol (y bydd eu tymor yn dod i ben ar 30/6/21):

Tomos Evans, Llywydd Undeb y Myfyrwyr  
Jane Chukwu, Ôl-raddedig VP  
Jude Pickett, Llywydd Chwaraeon ac Is-lywydd yr Undeb Athletau  
Luke Evans, Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli  
Georgina East, Lles ac Ymgyrchoedd VP

930.4 diolchodd y Cadeirydd yn arbennig a thalodd deyrnged i'r Athro Karen Holford cyn iddi adael ar 31 Gorffennaf 2021 i ymgymryd â swydd Is-Ganghellor Prifysgol Cranfield.



930.5 Roedd yr Athro Holford yn aelod o'r Brifysgol am gyfnod hir a nodedig; fel myfyriwr i ddechrau, yna fel aelod o staff yn dod yn Bennaeth yr Ysgol, yn Rhag Is-Ganghellor ac yn y pen draw yn Ddirprwy Is-Ganghellor. Gwnaeth y Senedd nodi cyfraniad mawr a gwerthfawr yr Athro Holford i'r Brifysgol drwy rownd o gymeradwyaeth.

**931 EITEMAU A DDERBYNIWYD ER GWYBODAETH**

NODODD y Senedd y papurau canlynol:

Papur 20/715 Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022/2023

Papur 20/526 Gonestrwydd Ymchwil Prifysgol Caerdydd - Cydymffurfio

â Gofynion Gwrthdaro Buddiannau Allanol

Papur 20/716 Grantiau a Chontractau Ymchwil

Papur 20/717 Newidiadau i Ordinhad 12

Papur 20/718 Teitlau Emeritws ac Emerita